

DOLEN Y TAB – 15

31 Gorffennaf – 1 Awst 2020

Yn ôl ein harfer byddwn yn cyd-addoli gyda Bethlehem, Gwaelod y Garth, drwy gydol mis Awst. Ond eleni, am y tro, bydd raid gwneud hynny'n rhithiol.

2 Awst

Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Ddr. R. Alun Evans.

Trefn Oedfaon Gweddill mis Awst

9 Awst

Oedfa yng ngofal Emlyn Davies ac aelodau'r Tabernacl.

16 Awst

Oedfa dan ofal Delwyn Siôn, Arweinydd Bethlehem.

23 Awst

Oedfa yng ngofal Edwyn Evans ac aelodau'r Tabernacl.

30 Awst

Oedfa dan ofal Rhodri-Gwynn Jones.

Os na chlywch yn wahanol, bydd pob un o'r oedfaon hyn ar gael ar ein llwyfannau arferol.

12.00 Oedfa Radio Cymru (fel rhan o ŵyl AmGen) yng ngofal Eurig Salisbury a Hywel Griffiths.

Cofiwch hefyd am . . .

- **12.30 Bob Pnawn Sul**
Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
- **Bob Dydd Sul**
E-fwletin *Cristnogaeth21* ar eu gwefan www.cristnogaeth21.cymru

BBC Radio Cymru

CYMANFA CODI'R TO

Am 7 o'r gloch
Nos Sul 2 Awst

Fel rhan o ŵyl AmGen, bydd cyfle i chi ymuno yn y canu, o glydwch eich cartrefi, dan arweiniad Trystan Lewis, Llandudno.

Mae emynau'r gymanfa wedi eu dewis yn barod, a chyhoeddir y manylion ar wefan BBC Radio Cymru: www.bbc.co.uk/radiocymru. Fe fydd yr wybodaeth yma hefyd yn cael ei rhannu'n helaeth ar y gwefannau cymdeithasol. Y cyfan fydd ei angen arnoch chi fydd copi o Caneuon Ffydd! Os nad oes gennych chi gopi, bydd modd gweld a lawrlwytho'r geiriau, eto ar wefan Radio Cymru.

GAIR O DDIOLCH O'R BANC BWYD

Adroddwyd yma bythefnos yn ôl y byddai'r Tabernacl yn anfon swm pellach o £1,200 i gynorthwyo Banc Bwyd Taf Elái ddiwedd mis Gorffennaf, ar sail cyfraniadau'r aelodau a gasglwyd dros y ddau fis diwethaf. Eisoes derbyniodd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol neges o ddiolch gan Lol Delbridge, un o wirfoddolwyr y banc bwyd, am yr ail gyfraniad. Aiff ymlaen yn ei neges i ddisgrifio sut y llwyddwyd i ymdopi â'r cynnydd aruthrol yn y galw yn ystod y cyfnod clo, ar waetha'r ffaith bod mwyafrif y gwirfoddolwyr arferol, oherwydd eu hoedran, wedi methu cyfrannu at y gwaith. Fodd bynnag, erbyn hyn, yn araf bach, mae'r gwirfoddolwyr hyn yn dechrau ail-gydio yn yr awenau ond gan gadw pellter cymdeithasol. Nodwyd pa mor ddiolchgar oeddynt i weithwyr oedd ar gynllun ffyrlo am wirfoddoli, gan weithio mor galed dros y misoedd diwethaf. Talwyd gwerthfawrogiad hefyd i'r gefnogaeth hael mae'r banc bwyd wedi ei dderbyn dros y cyfnod anodd hwn gan y gymuned leol, ynghyd â Chyngor RhCT a Tesco.

Estynnodd Lol groeso i unrhyw un o'r Tabernacl a hoffai ymweld â'r stordy newydd yn Uned 3, Parc Diwydiannol Coed Cae, Pontyclun, sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9 y bore ac 1 y pnawn.

Cofiwch y byddwn yn parhau i gasglu arian i'r banc bwyd hyd nes y byddwn yn dychwelyd i addoli yn y Tabernacl. Ceir manylion ynghylch sut y medrwyd gyfrannu ar wefan y capel, www.tabernacl.org.

CYHOEDDI 'DATHLU'R 150'



Aeth rhai wythnosau heibio ers lansio'r fersiwn digidol o'r llyfryn 36 tudalen sy'n olrhain hanes yr achos yn y Tabernacl ar achlysur dathlu codi'r adeilad presennol yn 1870.

Diolch i waith gorchestol Emlyn Davies wrth gloriannu llanw a thrai'r eglwys – a hynny dros ran o dair canrif, cofiwch – gallwn ymfalchïo bod gennym bellach lyfryn trawiadol ei gynnwys a'i ddiwyg sy'n gofnod teilwng iawn o'r hanes. Does dim syndod felly bod y gwaith wedi derbyn croeso cynnes a chanmoliaeth uchel, nid yn unig ymhlith aelodau a chyfeillion yr eglwys, ond hefyd ar hyd a lled Cymru.

O'r cychwyn cyntaf bu'n fwriad i gynhyrchu fersiwn printiedig o'r llyfryn, ond oherwydd y pandemig gohiriwyd hynny ddechrau Gorffennaf gan na theimlid y byddai'n ddiogel ei ddosbarthu o ddrws i ddrws. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw arwydd eto pryd y cawn ddychwelyd i gynnal oedfaon yn y Tabernacl, cytunodd Bwrdd y Cyfarwyddwyr i fwrw ymlaen i'w argraffu ddechrau Awst; caiff ei ddosbarthu i gartrefi'r aelodau gyda chymorth y Gofalwyr Ardal dros yr wythnosau nesaf.

Y prif wahaniaeth fydd yna rhwng y ddau fersiwn yw na fydd modd clicio ar y symbol er mwyn cael mynediad i'r wyth fideo a 26 o dudalennau we yn y fersiwn print, ond rhoddir cyfeiriad gwe yr eitemau hynny. Bydd bodio'r tudalennau wrth ddant llawer iawn ohonoch, rwy'n siŵr.

Capel y Tabernacl Cyf.

RHEOLWR SAFLE

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West mikealynwest@yahoo.co.uk
01443 206833

Gwilym Huws gehpengwern@yahoo.co.uk
01443 225205

PROFIAD TORCALONNUS TODA

Bydd anerchiad
gonest Llywydd y
Dydd yng Ngŵyl
AmGen heddiw,
sef Toda
Ogunbanwo,
myfyriwr 20



mlwydd oed, yn siŵr o bigo cydwybod llawer iawn o eglwysi Cymru sydd heb godi llais yn ddigon cryf ac yn ddigon aml yn erbyn y pandemig hiliol nad yw erioed wedi diflannu o dir ein gwlad.

Dyma ran o'i araith sy'n disgrifio'i brofiad yn tyfu i fyny yn Nyffryn Nantlle yn y 2010au:

'Cefais fy ngeni yn Harlow yn Essex ac mi nes i fyw yna tan o'n i'n saith oed. Yn 2007, mi symudais efo fy nheulu i Gymru. Oedd o'n newid mawr sydd wedi siapio fy mywyd mewn gymaint o wahanol ffyrdd.

Y gwir trist ydi bo' fi wedi cael gormod o brofiadau o hiliaeth yn yr ysgol ac mewn grwpiau o "ffrindiau". Y rheswm am y camdriniaeth yma oedd lliw fy nghroen.

*Pethau mor fach â neb yn gadael i fi chwara' gemau football efo nhw, a phethau mor fawr â chael fy ngalw yn N***** gan fyfyrwr chwe blynedd yn hŷn na fi. Dwi wedi cael plant yn poeri yn fy niod heb i mi wybod, dwi wedi cael plant yn lluchio yoghurt drosta fi – a hynny heb fawr o ymateb gan yr athrawon.*

Ma' cwffio a sefyll i fyny dros dy hun yn mynd yn anoddach pan wyt ti yn un person gwahanol mewn 500. Mae'n hawdd dweud bod y petha' yma ddim yn bodoli yng Nghymru. Ond y rheswm am hynny yw dydi dioddefwyr hiliaeth ddim yn siarad allan ddigon . . .'

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd dros y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org. Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205.

Cofiwch argraffu copi i'r aelodau hynny sydd heb gysylltiad â'r we. Diolch.